# SCDSW2
Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

## Trosolwg

Mae'r safon hon ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau. Mae llinynnau dwbl goruchwyliaeth broffesiynol a myfyrio personol yn hanfodol ar gyfer datblygu ymarfer, a rhaid i weithwyr cymdeithasol ddefnyddio'r ddwy ohonynt yn effeithiol. Yn eu tro, rhaid i'r rhain gael eu llywio gan adborth gan eraill a'u hategu â chymorth llai ffurfiol, pan fo hynny'n ddefnyddiol neu'n angenrheidiol. Mae'r safon hon yn mynd i'r afael â'r meysydd hyn ac yn sicrhau y caiff dysgu newydd ei integreiddio mewn ymarfer, er mwyn gwella ymarfer unigol a chyfrannu at ddatblygu'r proffesiwn yn ei gyfanrwydd.

# SCDSW2
Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

## Meini prawf perfformiad

*Mae'n rhaid eich bod chi'n gallu:*

| | |
|---|---|
| P1 | ceisio **goruchwyliaeth broffesiynol** i ddatblygu ymarfer gwaith cymdeithasol atebol |
| P2 | paratoi ar gyfer **goruchwyliaeth broffesiynol** ffurfiol mewn ffyrdd a fydd yn manteisio i'r eithaf ar ei effeithiolrwydd |
| P3 | manteisio ar ffynonellau ychwanegol o gymorth sy'n gydnaws ag egwyddorion gwaith cymdeithasol proffesiynol |
| P4 | defnyddio adborth o oruchwyliaeth a **ffynonellau eraill** i lywio myfyrio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol a'i werthuso |
| P5 | myfyrio ar y cyd-destun diwylliannol yr ydych yn ymarfer ynddo a sut mae hyn yn effeithio ar eich gwaith |
| P6 | myfyrio ar eich gwerthoedd, credoau a'ch rhagdybiaethau eich hun, a sut maent yn effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol |
| P7 | integreiddio dysgu o fewn ymarfer |
| P8 | cyfrannu eich gwybodaeth eich hun ynglŷn ag arfer gorau at ddatblygiad parhaus y proffesiwn |

# SCDSW2
Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

| | | |
|---|---|---|
| K1 | deddfwriaeth genedlaethol, ei pherthynas â **pholisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K2 | codau, safonau, fframweithiau ac arweiniad statudol a phroffesiynol; eu perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K3 | nodweddion y wlad gartref, ei hiaith, diwylliant, daearyddiaeth ac arferion |
| K4 | damcaniaethau sy'n tanategu ein dealltwriaeth o faterion cymdeithasol o safbwyntiau seicolegol, cymdeithasegol a throseddegol |
| K5 | damcaniaethau gwahaniaethu mewn cymdeithas gyfoes |
| K6 | beirniadaethau ar sail damcaniaethau ac ymchwil ar y berthynas rhwng deddfwriaeth, **polisïau** ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K7 | gwaith cymdeithasol fel proffesiwn, gan gynnwys adroddiadau hanesyddol a materion cyfoes |
| K8 | natur, rôl a gorchymyn y berthynas gwaith cymdeithasol, gan gynnwys ffiniau proffesiynol a moesegol |
| K9 | egwyddorion, damcaniaethau, dulliau a modelau o ymyriad ac ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K10 | **ffactorau** sy'n gyffredinol yn cael eu cysylltu ag ymglymiad gwaith cymdeithasol |
| K11 | eich cefndir, profiadau ac arferion eich hun a all effeithio ar eich ymarfer gwaith cymdeithasol |
| K12 | egwyddorion asesu risg a rheoli risg |
| K13 | technegau datrys problemau a meddwl arloesol |
| K14 | egwyddorion rheoli gwrthdaro |
| K15 | natur gwrthdaro ac effaith ôl-gwrthdaro ar y gymdeithas |
| K16 | gweithio yn eich sefydliad: egwyddorion, gweithdrefnau ac ymarferion proffesiynol |

| | |
|---|---|
| K17 | offer a fframweithiau asesu a chynllunio |
| K18 | gofynion ffurfiol ar gyfer prosesau cyfreithiol a phrosesau allanol eraill |
| K19 | gweithdrefnau amlddisgyblaethol a sefydliadol lleol ar gyfer ymchwilio i niwed neu gamdriniaeth |
| K20 | nodweddion cyffredin ymddygiad cyflawnwyr |
| K21 | dangosyddion gelyniaeth, gwrthwynebiad neu ddiffyg cydymffurfio cudd |
| K22 | grym a chyfrifoldebau cyfreithiol a statudol y gellir eu defnyddio er mwyn diogelu unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau |
| K23 | rôl brocera o ran sicrhau gwasanaethau |
| K24 | egwyddorion ymarfer myfyriol, meddwl beirniadol a dysgu |
| K25 | prosesau a gofynion ar gyfer goruchwyliaeth ffurfiol o fewn eich sefydliad eich hun |
| K26 | sut a phryd i fanteisio ar gymorth anffurfiol wrth ymarfer |
| K27 | ffynonellau o adborth a all lywio myfyrio ar ymarfer a meddwl beirniadol |

## Gwybodaeth Ychwanegol

| | |
|---|---|
| **Cwmpas/ystod** | Ymarfer gwaith cymdeithasol gydag unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau, mewn ystod eang o gyd-destunau, gan gynnwys gwasanaethau cymdeithasol statudol ac anstatudol, datblygu cymunedol, cyfiawnder troseddol a lles addysgol |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â meini prawf perfformiad** | Bydd **goruchwyliaeth broffesiynol** yn unol â gofynion sefydliadol a phroffesiynol, sydd wedi cael eu cynllunio i ategu ac arwain myfyrio beirniadol ar y gwaith a gyflawnir; arwain a llywio ymarfer a pherfformiad presennol ac yn y dyfodol; amlygu anghenion datblygu proffesiynol parhaus; rheoli llwyth gwaith a blaenoriaethau; rheoli straen<br><br>Gall **ffynonellau eraill** gynnwys cydweithwyr o'ch sefydliad eich hun a sefydliadau a disgyblaethau eraill; unigolion, teuluoedd, grwpiau a chymunedau; ymchwil |
| **Cwmpas/ystod sy'n gysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth** | Gall **polisïau** gynnwys rhai sy'n ymwneud â gofal cymdeithasol, diogelu, ail-leoli/atgyfannu yn y gymuned, cyfiawnder troseddol, mudo a cheisio lloches, addysg, iechyd, tai, budd-daliadau lles, amrywiaeth, gwahaniaethu a hybu annibyniaeth ac ymreolaeth oedolion, plant, teuluoedd, grwpiau a chymunedau<br>Gall **ffactorau** gynnwys camddefnyddio sylweddau; iechyd meddwl; eiddilwch; salwch corfforol; anabledd corfforol; anabledd dysgu; anghenion synhwyraidd; mudo a cheisio lloches; tlodi; oedolion neu blant mewn perygl o niwed neu gamdriniaeth; plant mewn angen; anawsterau sy'n ymwneud ag addysg; statws grŵp ethnig neu grŵp lleiafrifol arall; ymddygiad troseddol; diogelu'r cyhoedd |

# SCDSW2
## Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

---

### Gwerthoedd

Glynu wrth y codau ymarfer rheoleiddiol sy’n gymwys i weithwyr cymdeithasol, a’r gwerthoedd sydd wedi cael eu mewnosod ynddynt

### Sgiliau

1 Rheoli galw ar eich amser eich hun i flaenoriaethu’r hyn sy’n bwysig, yn ogystal â’r hyn sydd angen ei wneud ar frys
2 Cyfathrebu mewn modd agored, cywir a dealladwy
3 Cymhwyso meddwl beirniadol i wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau
4 Dadansoddi a chyfosod gwybodaeth gymhleth
5 Cymhwyso meddwl creadigol i ddatrys problemau cymhleth
6 Cael mynediad at systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu a’u defnyddio i gasglu, storio a lledaenu gwybodaeth
7 Cael mynediad at oruchwyliaeth a chymorth proffesiynol a’u defnyddio mewn sefyllfaoedd y tu hwnt i’ch gwybodaeth neu’ch profiad chi
8 Cymhwyso meddwl beirniadol er mwyn myfyrio ar eich ymarfer eich hun
9 Cyfosod gwybodaeth ac ymarfer

### Cysylltiadau â SGC eraill

Mae’r SGC hon yn tanategu pob SGC Gwaith Cymdeithasol arall.

### Cysylltiadau Allanol

Mae’r SGC hon yn cysylltu â chodau ymarfer rheoleiddiol sy’n berthnasol i weithwyr cymdeithasol.

# SCDSW2

## Datblygu ymarfer gwaith cymdeithasol trwy oruchwyliaeth a myfyrio

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **Rhif y fersiwn** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | HYDREF 2011 |
| **Dyddiad adolygu mynegol** | Ebrill 2014 |
| **Dilysrwydd** | Cyfredol |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad gwreiddiol** | Sgiliau Gofal a Datblygu |
| **URN gwreiddiol** | SW2 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithiwr Cymdeithasol |
| **Cyfres** | Gwaith Cymdeithasol |
| **Allweddeiriau** | Ymarfer; goruchwyliaeth; myfyrio |